**Rhesymeg**

Rheolir Addysg Grefyddol yn lleol gan Gyngor Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Addysg Grefyddol (CYSAG). Mae'n cynnwys tri phwyllgor: cynrychiolwyr prif draddodiadau crefyddol yr ardal, cynrychiolwyr athrawon a chynrychiolwyr yr awdurdod lleol. Prif swyddogaeth CYSAG yw, 'cynghori'r awdurdod ar y cyfryw faterion sy'n gysylltiedig ag addoli crefyddol mewn ysgolion sirol ac â'r addysg grefyddol sydd i'w rhoi yn unol â maes llafur cytûn ag y bydd yr awdurdod yn eu cyfeirio at y cyngor neu ag y gwêl y cyngor yn dda'. (Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(1)(a)

Cred CYSAG Gwynedd y dylai'r cyngor hwn fod yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol gan obeithio y bydd y canllawiau sy'n dilyn yn galluogi penaethiaid i gefnogi CYSAG yn ei dyletswyddau.

Yn y gorffennol, mae CYSAG Gwynedd wedi monitro addysg grefyddol ac addoli ar y cyd trwy:

- adolygu adroddiadau arolygu ESTYN;
- dadansoddi asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau ysgolion uwchradd yr Awdurdod Lleol;
- cael adroddiadau rheolaidd gan gynrychiolwyr y gwasanaeth ysgolion/ymgynghorol lleol;
- gwahodd athrawon a phenaethiaid i rannu enghreifftiau o arferion da gydag aelodau CYSAG.

Ni fydd Fframwaith Arolygu newydd ESTYN bellach yn cyfeirio'n benodol at Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd. Mae CYSAG Gwynedd felly yn awyddus i fanteisio ar y cyfundrefnau a'r arferion a ddefnyddir ar hyn o bryd gan benaethiaid ac athrawon wrth iddynt baratoi at y Fframwaith Arolygu newydd. Yng nghyfarfod CYSAG Gwynedd ar 13 Hydref 2010, penderfynwyd y byddai CYSAG yn cyflawni ei chyfrifoldebau statudol trwy wahodd ysgolion i rannu eu hunan arfarniad o Addysg Grefyddol, addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion gyda'r aelodau.

Gofynnir yn garedig i ysgolion cynradd ac uwchradd gyflwyno crynodeb o hunan arfarniad yr ysgol i sylw clerc CYSAG Gwynedd yn ystod y flwyddyn pan fydd ESTYN yn arolygu'r ysgol.

**Manylion cyswllt:** (kenrobinson@gwynedd.gov.uk) 01286 679888

**Enw (Clerc CYSAG): Ken Robinson.**

**Cyfeiriad: Swyddfa Addysg Ardal Arfon, Cyngor Gwynedd, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH.**

Ers 2008, mae CYSAGau ar draws Cymru wedi mabwysiadu neu addasu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol (APADGOS, 2008) fel eu maes llafur cytûn lleol. Mae aelodau'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol wedi croesawu'r cysondeb hwn ar draws Cymru gan eu bod wedi gallu cydweithio i baratoi canllawiau cyffredin i ysgolion a ChYSAGau. Mae amryw o GYSAGau yng Nghymru wedi mabwysiadu cyfundrefn neu broses debyg i'r un a amlinellir yn y ddogfen hon.

**Enw'r Ysgol: Llanllechid**

| **Addysg Grefyddol** |
|---|

## Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion a chyfweliadau â disgyblion.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad.

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu**

- Gwelwyd fod mwyafrif y disgyblion erbyn diwedd eu hamser yn y Cyfnod Sylfaen yn cyflawni lefel 2. Mae`r mwyafrif ohonynt yn gallu galw i gof a chyfathrebu dysgeidiaethau sylfaenol ac yn gyfarwydd â nifer helaeth o storiau sydd a gwers iddynt e.e. y damhegion/pobl sy`n ein helpu
- Roedd y disgyblion, yn dilyn eu hymweliad a chapel Carmel, yn gallu siarad yn glir a hyderus am nodweddion y capel ac yn gallu defnyddio termenoleg a deall arwyddocad: set fawr, croes, bwrdd cymundeb, bedydd, priodas
- Mae partneriaeth gref yn bodoli rhwng y capel lleol a`r eglwys leol a bydd y Ciwrat lleol yn dod i`r ysgol i gynnal gwersi 'Godly Play' gyda plant Adran y Cyfnod Sylfaen ac mae`r rhain o safon dda ac maent yn ychwanegu`n arwyddocaol tuag at yr arlwy yma`n yr ysgol.
- Mae rhan helaeth o`r gwaith wedi ei sylfaenu ar brofiadau uniongyrchol sy`n fyw i`r disgyblion ac mae`r disgyblion yn cael cyfleoedd cyson i actio a chwarae rôl
- Mae sgiliau`r disgyblion yn datblygu yn dda a gwelir enhreifftiau da o elfennau o asesu ar gyfer dysgu
- Mae`r maes yn cael sylw trawsgwricwlaidd da
- Mae`r gwasanaethau ysgol gyfan yn amrywiol ac o ansawdd dda ac fe geir ymweliadau cyson gan y Gweinidog lleol a`r Ficar a`r Ciwrat

**Materion i gael sylw**

- Parhau a dwysau`r pwyslais ar y disgyblion yn cael rol weithredol yn y cynllunio
- Cyfleoedd i drafod ac i ad-alw a myfyrio ar y profiadau a`r gweithgareddau yn gyson

| **Rhagorol** | | **Da** | √ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau**

- Fel yn y cyfnod Sylfaen caiff y Cwricwlwm Cymreig le amlwg yn y gweithgareddau ac mae`r disgyblion yn ymwybodol o storiau e.e. Mari Jones a`i Beibl, Beibl William Morgan
- Mae sgiliau cwestiynu`r disgyblion yn datblygu`n dda iawn
- Mae mwyafrif y disgyblion yn deall arwyddocad y gair parch yn dda a chyflawnwyd gwaith da ar reolau gan berthnasu hynny i fywydau`r disgyblion
- Derbyniodd yr ysgol *rhagorol* ar gyfer addysg ar gyfer datblygiad cynliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn ein harolygiad ac mae`r ysgol yn arwain y sector yn y maes
- Gwelwyd gwersi o safon uchel gyda mwyafrif y plant yn cyfathrebu`n rhwydd gan ddefnyddio geirfa addas
- Gwelwyd gwersi ar athroniaeth blaengar o safon rhagorol wrth arsylwi gwersi
- Mae sgiliau datblygu meddwl, sgiliau TGch a sgiliau datblygu rhif yn cael lle amlwg yn y portffolio – mae angen gweithio ymhellach ar yr agwedd rhifedd oddi fewn i Addysg Grefyddol
- Mae ystod o dystiolaeth yn y portffolio ysgol gyfan sy`n cwmpasu`r sgiliau ymdrin â`r cwestiynau sylfaenol/ archwilio credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol a mynegi ymatebion personol
- Mae cyswllt yr ysgol gydag addoldai lleol yn rhagorol
- Mae`r disgyblion wedi cyflawni gwaith da ar ofyn cwestiynau drwy ddefnyddio adnoddau e.e. Cwestiynau

Pwysig Mewn Crefydd – pecyn adnoddau i athrawon

- Gwariwyd ar adnoddau i`r ysgol gyfan yn dilyn argymhellaid yr Ymgynghorydd

Mae Asesu ar gyfer Dysgu oddi fewn i Addysg Grefyddol wedi gwreiddio i wahanol raddau yn y dosbarthiadau gyda rhai enghreifftiau rhagorol. Mae'r strategaethau a ddefnyddir gan yr athrawon wedi arwain at y cryfderau canlynol:

- o deilliannau dysgu clir i'r gwersi
- o y plant yn gweithio gyda'r athrawon yn rheolaidd i osod M.P.LL
- o y plant yn dod i adnabod eu targedau ar gyfer gwelliant eu hunain
- o defnyddio gwybodaeth asesu ffurfiannol i lywio'r cynllunio
- o mae'r adborth llafar ac ysgrifenedig a roddir yn caniatáu i blant adnabod eu camau nesaf

Mae'r ysgol yn cydymffurfio'n llawn â'r gofynion statudol o ran cofnodi cyflawniadau disgyblion.

Derbynia`r cyd-gysylltydd gyrsiau hyfforddiant o ansawdd uchel gan CYNNAL a rheadrir y wybodaeth i weddill y staff mewn cyfarfodydd staff.

Derbyniodd yr ysgol adroddiad da gan yr Ymgynghorydd Dyniaethau.

Mae yr ysgol yn cyflawni gofynion wrth amserlennu Addysg Grefyddol.

**Materion i gael sylw**

- o Parhau i gyd-asesu gwaith a datblygu dulliau hunan asesu ac adfyfyrio er mwyn sirhau ei fod yn arfer traws ysgol
- o Parhau i ddatblygu sgiliau cwestiynu – penodol ac agored fel arfer traws ysgol
- o Rhifedd oddi fewn i Addysg Grefyddol

**Da – gyda rhai agweddau rhagorol**

| **Rhagorol** | | **Da** | √ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Addoli ar y Cyd

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?**

| **Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?** | **Ydy** √ | **Nac ydy** |
|---|---|---|

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94)

**Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

**Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

| **Rhagorol** | | **Da** | √ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

Llofnod: *G Davies Jones* (Pennaeth)

Dyddiad: Rhagfyr 2011